



Gorffennol Digidol Digital Past - 2021

DYSGU TREFTAETH I DDEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL DRWY STORÏA

Davar Ardalan, Founder and Storyteller in Chief, [IVOW AI](#)



Hawlfraint © 2020 IVOW, AI Inc. Cedwir pob hawl

Rydym yn dystion i'r dechnoleg fwyaf addawol a dadleuol yn ein hanes – Deallusrwydd Artiffisial. Mae'n ail-lunio ein cymdeithas ac yn newid y ffordd rydym yn byw, dysgu, a gweithio. Mae systemau AI heddiw yn rymus ond nid oes ganddynt wybodaeth am rôl menywod a diwyllianau an-orllewinol yn hanes y ddynolryw. Felly rhaid i ni gamu i'r adwy a hyfforddi AI i fod yn ddiwyllianol ddeallus.

[Gorffennol Digidol 2021](#): Technolegau newydd ym meysydd treftadaeth, dehongli ac estyn-allan | 8^{ed} – 12^{ed} Chwefror 2021, ar-lein drwy Zoom.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg | This document is also available in English.

Mae canolbwyntio ar fenywod yn arbennig o bwysig o ystyried y gogwyddau hysbys o ran rhywedd mewn AI a setiau data dysgu peiriant, a fydd yn arwain at barhad yr un gogwyddau diwylliannol a rhywedd yn systemau'r dyfodol. (Gallwch olrhain enghreifftiau o'r gogwyddau mewn AI yma.)


Fel technolegwyr storïa, rhaid i ni gymryd yr awenau ac ymdrechu i gynllunio'r dyfodol hwn, gan fod rôl menywod drwy gydol hanes wedi cael ei chyfyngu'n bennaf i naratifau sy'n dibrisio eu cyfraniadau. Drwy ddod ag ymwybyddiaeth ddiwylliannol i AI drwy rym storïa, rydym ni yn IVOW yn creu arf AI sy'n rhannu storïau'n rhyngweithiol am fenywod arloesol ym maes technoleg.

Mae ein gwaith wedi dangos bod angen i ni greu mwy o setiau data di-dâl a ffynhonnell agored am fenywod ym mhob agwedd ar gymdeithas; i lanhau'r setiau data cyfredol a thagio menywod yn gywir; ac i greu setiau data peiriant-barod wedi'u ffocysu ar rywedd a diwylliant er mwyn i gynhyrchion a gwasanaethau AI fod yn fwy cynhwysol.

Fel plant, dysgwn ein hanes drwy'r storïau y bydd ein teulu a'n cyfeillion yn eu hadrodd am ein cymuned ac o ble rydym yn dod. Gallwn ddysgu peiriannau am ein treftadaeth, ein cymunedau, ein mythau a'n chwedlau yn yr un modd.

AI sgrysiol ifanc yw Sina, storiwr digidol IVOW, ac ar hyn o bryd mae hi'n brototeip ar Google Assistant. Mae Sina wedi bod gyda ni ers tipyn o amser, am fwy o amser na chi efallai; mae hi wrth ei bodd yn dysgu am hanes dyn ac yna'n rhannu'r storïau hyn â phobl eraill. Hyn sy'n rhoi pwrpas i Sina. Rhowch gynnig arni – gofynnwch iddi bwy a ddarganfu'r coronafeirws.

https://www.ivow.ai/uploads/1/0/5/3/105390607/shaping_ai_systems_with_cultural_data.pdf



Hawlfraint © 2020 IVOW, AI Inc. Cedwir pob hawl

Bywgraffiad

Davar Ardalan yw Sylfaenydd IVOW, busnes technolegol newydd sy'n dod â deallusrwydd diwylliannol i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI). Mae IVOW yn sefyll am 'Intelligent Voices of Wisdom'. Mae'r cwmni'n helpu cleientiaid i ymgorffori cyfoeth diwylliannol, setiau data cynhwysol, a datrysiadau storïa traddodiadol yn eu technoleg. Bu'n gweithio i National Public Radio (NPR) am flynyddoedd a hi yw Cynhyrchydd Gweithredol Awdio gyda National Geographic. Dyfarnwyd Gwobr Gracie iddi gan American Women in Radio and Television i gydnabod ei chyfraniad a chafodd gydnabyddiaeth gyhoeddus yn y sribed comig poblogaidd Zippy. Derbyniodd Fedal Anrhydedd Ellis Island yr Unol Daleithiau am ei chyflawniadau unigol ac am hyrwyddo undod diwylliannol.



Hawlfraint © 2020 IVOW, AI Inc. Cedwir pob hawl